# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Gwydir

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Bro Gwydir yn gymuned gynhwysol sy’n rhoi pwyslais cadarn ar ddysgu, lles a datblygiad personol disgyblion. Mae gan y pennaeth weledigaeth flaengar sy’n sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu diddorol mewn amgylchedd dysgu difyr a gofalgar. Mae hyn yn cyfrannu’n bwrpasol at ymddygiad ardderchog a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion. Mae’r weledigaeth synhwyrol hon, sy’n cynnwys cyfraniadau o’r staff a’r gymuned ehangach, yn cefnogi arferion gwella’r ysgol yn llwyddiannus.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio’n effeithiol i sicrhau darpariaeth gwricwlaidd eang a chytbwys. Maent yn dîm o staff effeithiol sy’n canolbwyntio ar hyrwyddo dysgu a lles disgyblion yn fwriadus. Maent yn cydweithio’n frwd â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion y disgyblion a’u cymuned yn dda. Mae Uned Anghenion Cymhedrol yr awdurdod lleol, sydd ar safle’r ysgol, yn darparu gofal effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn yr uned yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â’u targedau personol.

Mae rhediad y sesiynau addysgu yn cyfatebu’n dda i ddysgu disgyblion. Mae adborth yr athrawon i ddisgyblion i wella’u dysgu yn briodol. Fodd bynnag, nid oes cysondeb yn arferion adborth athrawon wrth herio dysgu’r holl ddisgyblion. Yn yr achosion gorau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau’n bwrpasol ar draws y meysydd dysgu. Mae hyn yn arwain at gynnydd cadarn ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Er hyn, nid yw’r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd ymestynnol i gymhwyso’u medrau ar lefelau priodol ar draws y cwricwlwm.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau’n ddeallus, sy’n datblygu eu parch at bobl eraill yn llwyddiannus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol effeithiol, sy’n creu ymwybyddiaeth dda o’u cynefin a gwerthfawrogiad diwylliannol cryf.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Darparu adborth buddiol i herio dysgu'r holl ddisgyblion

A2 Cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ar lefelau priodol ar draws y cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2025